

Taflen Ffeithiau Ofcom ar dderbyniad. Rhif 2

Faint o gartrefi fydd yn gallu derbyn yr amblecsau teledu gwasanaeth cyhoeddus ar ôl newid i'r digidol?

Crynodeb

- 1.1 Mae cynlluniau wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod amblecsau teledu digidol gwasanaeth cyhoeddus yn cyrraedd yr un nifer o gartrefi ar ôl y newid i'r digidol ag y mae'r gwasanaethau analog presennol yn eu cyrraedd ar hyn o bryd: hynny yw 98.5% o holl gartrefi'r DU. Fodd bynnag, oherwydd gwahaniaethau rhwng signalau digidol ac analog, a gwahanol batrymau ymyrraeth ar ôl y newid i'r digidol, nid yr un 98.5% o'r boblogaeth fydd yn gallu derbyn teledu daearol digidol. Disgrifir y rhesymau dros y gwahaniaethau hyn, ynghyd â sut y gallent effeithio ar wahanol grwpiau o gartrefi, yn y daflen ffeithiau hon.

Faint o gartrefi sy'n gallu derbyn gwasanaeth analog ar hyn o bryd?

- 1.2 Mae pedwar rhwydwaith darlledu daearol analog sy'n cyrraedd pob rhan o'r DU; BBC ONE, BBC TWO, ITV 1 a Channel 4/S4C (mae Channel 4 ac S4C yn rhannu rhwydwaith cenedlaethol). Mae'r rhwydweithiau hyn wedi esblygu dros nifer o flynyddoedd ac maent yn darparu darllediadau o 1,154 o safleoedd trosglwyddyddion er mwyn sicrhau bod gwasanaethau teledu daearol analog y BBC, ITV a Channel 4/S4C yn cyrraedd bron bob rhan o'r DU.
- 1.3 Er mwyn cynllunio ar gyfer y newid i'r digidol cyhoeddodd Ofcom asesiad yn 2007 (<http://www.ofcom.org.uk/tv/ifi/tech/dttcoverage/>) o nifer y cartrefi y rhagfynegid y byddent yn gallu derbyn y pedwar rhwydwaith analog gwasanaeth cyhoeddus hyn. Daeth yr asesiad hwn (y ceir crynodeb ohono yn Nhabl 1 isod) i'r casgliad y byddai 98.5% o gartrefi'r DU, yn ôl y rhagfynegiadau, yn gallu cael y derbyniad craidd, hynny yw y byddent yn derbyn pob un o'r pedwar gwasanaeth analog o'r 1,154 o safleoedd darlledu sy'n bodoli'n barod. Dim ond cyfeiriadau sy'n gallu derbyn pob un o'r pedwar gwasanaeth analog sy'n cael eu cynnwys yn y derbyniad craidd. Bydd hyn bob amser yn is na derbyniad gwasanaethau unigol. O'r cyfanswm hwn, rhagfynegid y byddai 95.6% yn cael gwasanaeth llawn, hynny yw i safon ddibynadwy iawn. Roedd 2.9% o gartrefi eraill yn gallu cael derbyniad, ond nid oedd y safon mor ddibynadwy. Cyfeirir at y rhain fel cartrefi sy'n cael "gwasanaeth ymylol" yn nhabl 1. Cymerir bod cyfeiriad yn cael gwasanaeth llawn os yw'r rhagfynegiadau'n dangos y bydd yn derbyn gwasanaeth am o leiaf 95% o'r adeg, ac mewn 50% o'r lleoliadau sy'n agos iawn ato. Er mwyn gweld sut mae rhagfynegiadau derbyniad teledu'n cael eu gwneud darllenwch daflen ffeithiau Rhif 1.

Tabl 1: Rhagfynegiadau derbyniad analog cyn y newid i'r digidol, canran o gyfeiriadau'r DU sy'n cael derbyniad

Rhwydwaith	Ansawdd a ragfynegir ar gyfer y derbyniad	BBC1	BBC2	ITV1	C4/S4C	Derbyniad craidd (pob gwasanaeth)
1154 o Safleoedd Analog	Gwasanaeth llawn (gwasanaeth dibynadwy iawn)	97.9%	96.9%	96.7%	96.9%	95.6%
1154 o Safleoedd Analog	Gwasanaeth ymylol	1.6%	2.3%	2.3%	2.3%	2.9%
1154 o Safleoedd Analog	Cyfanswm a wasanaethir (Gwasanaeth llawn a gwasanaeth ymylol)	99.5%	99.2%	99.0%	99.2%	98.5%

Gofynion Ofcom ar gyfer derbyniad amblecsau gwasanaeth cyhoeddus

- 1.4 Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn nodi y dylai nifer y cartrefi sy'n gallu derbyn yr amblecsau sy'n trosglwyddo'r sianelau gwasanaeth cyhoeddus gyfateb i raddau helaeth â'r nifer sy'n gallu derbyn y gwasanaethau analog cyfatebol. Adwaenir yr amblecsau hyn fel BBC - Multiplex 1, BBC - Multiplex B a Digital 3&4 – Multiplex 2. Mae Ofcom, yn unol â hynny, wedi cynnwys yr amod hwn yn ei drwyddedau newid i'r digidol a'i drwyddedau amblecsau.
- 1.5 Mae Ofcom wedi cynnal cyfres o ymgynghoriadau i drafod sut y dylid bodloni'r gofyniad hwn sy'n ymwneud â derbyniad. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad diweddaraf yn 2005 (gweler <http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/pods1/main/statement/>). Daeth yr ymgynghoriadau hyn i'r casgliad y byddai'n fanteisiol lleihau unrhyw amrywiadau rhwng derbyniad craidd yr amblecsau gwasanaeth cyhoeddus ar ôl y newid i'r digidol a restrir uchod a'r derbyniad craidd analog presennol.
- 1.6 Mae Ofcom, o ganlyniad, wedi nodi ei bod yn ofynnol i'r tri amblecs gwasanaeth cyhoeddus, ar adeg y newid i'r digidol, fabwysiadu pob un o'r 1,154 o safleoedd darlledu a ddefnyddir i ddarparu sianelau gwasanaeth cyhoeddus mewn analog¹. Mae hefyd yn ofynnol i weithredwyr amblecsau ddefnyddio'r un math o amleddau a phwerau ag a ddefnyddir gan y gwasanaethau analog presennol. Mae Ofcom hefyd wedi nodi ei bod yn ofynnol i'r darlledwyr fabwysiadu nifer o safleoedd darlledu ychwanegol er mwyn llenwi nifer bychan o fylchau sy'n cael eu rhagfynegi ac sy'n cael eu hachosi gan lefelau uwch o ymyrraeth o ganlyniad i fabwysiadu teledu daearol digidol yn y DU ac ar y cyfandir.
- 1.7 O ganlyniad, rhagfynegir ar hyn o bryd y bydd 98.6% o gartrefi'r DU yn gallu cael derbyniad craidd, hynny yw, y byddant yn derbyn y tri amblecs gwasanaeth cyhoeddus, ar ôl cwblhau'r newid i'r digidol. Mae hyn yn cyflawni'r prif amcan a bennwyd gan Ofcom ar gyfer derbyniad yn ei drwyddedau.

¹ Mae'n bosib na fydd angen ambell un o'r rhain ar gyfer teledu daearol digidol gan eu bod yn cywiro problemau derbyniad na fyddant yn codi gyda theledu daearol digidol

- 1.8 Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, gofynnir i'r tri amlblecs masnachol (SDN, NGW-C & NGW-D) ddal i weithredu o'r 80 safle trosglwyddydd sy'n cael eu defnyddio ar gyfer y gwasanaethau hyn cyn newid i'r digidol, a darparu derbyniad sy'n gyfwerth o leiaf. Mae gweithredwyr y amlblecsau hyn, o ganlyniad, wedi penderfynu dal i weithredu o'r safleoedd hyn yn unig, a defnyddio trosglwyddyddion mwy pwerus. O ganlyniad, mae'r model cyfrifiadurol yn rhagfynegi y bydd eu gwasanaethau'n cyrraedd tua 90% o gartrefi'r DU ar adeg y newid i'r digidol, o gymharu â 73% cyn y newid i'r digidol. Y derbyniad craidd ar gyfer amlblecsau gwasanaeth cyhoeddus yw 98.6%. Mae'r tabl isod yn cynnwys dadansoddiad manylach o'r asesiad hwn.

Tabl 2: Derbyniad a Rhagfynegir ar gyfer Teledu Daearol Digidol yn y DU ar ôl y newid i'r digidol²

	Derbyniad amlblecsau gwasanaeth cyhoeddus			Derbyniad amlblecsau masnachol			Lefelau derbyniad craidd	
	1 (BBC)	2 (D3&4)	B (BBC)	A (SDN)	C (NGW)	D (NGW)	3 amlblecs gwasanaeth cyhoeddus	Pob un o'r 6 amlblecs
Derbyniad teledu daearol digidol	99.1%	99.0%	99.0%	93%	93%	93%	98.6%*	90%

* O'i gymharu â rhagfynegiad o 98.5% ar gyfer derbyniad analog craidd cyn y newid i'r digidol

Yr effaith ar wylwyr analog

- 1.9 Rhagfynegir y bydd y tri amlblecs gwasanaeth cyhoeddus yn cyrraedd 98.6% o gartrefi'r DU ar ôl y newid i'r digidol. Mae hyn yn golygu y bydd tuag 1.4% o boblogaeth y DU (tua 350,000 o gartrefi) y tu allan i ardal derbyniad craidd y sianelau gwasanaeth cyhoeddus ar ôl y newid i'r digidol. Mae nifer y cartrefi na fyddant yn cael eu gwasanaethu'n debyg iawn i'r nifer sy'n cael eu heffeithio yn y byd analog.
- 1.10 Mae'n bosib y bydd rhai cartrefi sydd mewn ardal lle rhagfynegir derbyniad craidd analog cyn newid i'r digidol, y tu allan i ardal lle rhagfynegir derbyniad craidd digidol ar adeg y newid i'r digidol. Mae hyn o ganlyniad i amrywiadau yn nodweddion y signalau digidol a'r newid mewn patrymau ymyrraeth sy'n digwydd wrth i deledu daearol digidol gael ei fabwysiadu ledled Ewrop. Gallai cartrefi eraill, sydd y tu allan i ardal lle rhagfynegir derbyniad analog ar hyn o bryd, symud i ardal lle rhagfynegir derbyniad digidol.
- 1.11 Gellir rhannu'r cartrefi y bydd y newidiadau hyn yn effeithio fwyaf arnynt yn bedwar categori:-
- Y rhai hynny a fydd yn symud i ardal lle rhagfynegir derbyniad ar adeg y newid i'r digidol.
 - Y rhai hynny a fydd yn symud o ardal lle rhagfynegir derbyniad ar adeg y newid i'r digidol.

² Fel yn Chwefror 2008, gan gymryd y bydd y paramedrau technegol yr un fath â'r rhai a oedd yn bodoli ar yr adeg hon

- Y rhai hynny a fydd yn dal y tu allan i ardal lle rhagfynegir derbyniad teledu daearol digidol ar adeg y newid i'r digidol ond a fydd yn gallu derbyn gwasanaeth teledu daearol digidol o ansawdd gwael/llai dibynadwy.
- Y rhai hynny na fyddant yn gallu derbyn unrhyw wasanaethau (analog na digidol).

1.12 Fel y nodwyd yn y daflen ffeithiau sy'n ymwneud â rhagfynegi derbyniad, mae rhagfynegi derbyniad daearol yn broses gymhleth. Mae'n dibynnu ar ddadansoddiad ystadegol o ystod eang o ffactorau ac mae ganddi lwfans gwallau cyffredinol o tua 0.1% (sy'n cyfateb i tua 25,000 o gartrefi). **Mae hyn yn golygu bod peryglon wrth ddefnyddio'r modelau hyn i ragfynegi derbyniad mewn ardaloedd daeryddol bach. Felly, dylid cymryd bod y drafodaeth isod yn cynrychioli amcangyfrif gorau Ofcom o faint y broblem.**

Y rhai hynny sy'n symud i ardal lle rhagfynegir derbyniad ar adeg y newid i'r digidol

- 1.13 Mae Ofcom yn amcangyfrif y bydd tua 250,000 o gartrefi sydd y tu allan i ardal lle rhagfynegir derbyniad analog ar hyn o bryd yn symud i ardal lle rhagfynegir derbyniad teledu daearol digidol o ganlyniad i'r newid i'r digidol. Mae'r rhan fwyaf o'r bobl hyn ar arfordir de a dwyrain Lloegr lle mae trosglwyddyddion newydd yn cael eu lleoli, gan fod lefelau uwch o ymyrraeth yn dod i mewn o wledydd cyfagos. Mae'n bosib y bydd angen i'r cartrefi hyn ddiweddarau eu hantennau er mwyn derbyn gwasanaethau teledu daearol digidol, yn enwedig os ydynt yn cael eu gwasanaethu gan drosglwyddyddion newydd. Bydd gwirydd côd post Digital UK yn dangos lle mae hyn yn debygol o fod yn angenrheidiol.
- 1.14 I'r gwrthwyneb, bydd nifer ychydig yn llai o gartrefi yn symud o ardal lle rhagfynegir derbyniad o ganlyniad i newid i'r digidol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y bydd pob un o'r cartrefi hyn yn methu â derbyn gwasanaethau teledu daearol digidol ar adeg y newid i'r digidol. Trafodir isod sut y mae hyn yn effeithio ar wahanol fathau o gartrefi.
- 1.15 Mae'r mwyafrif helaeth o'r cartrefi hyn eisoes mewn ardaloedd sy'n dioddef o ymyrraeth achlysurol ar eu gwasanaethau analog (cyfeirir atynt yn Nhabl 1 fel rhai sy'n cael "gwasanaeth ymylol") ond ar lefel sydd o fewn yr ystod sy'n cael ei ystyried yn dderbyniol dan y meini prawf cynllunio analog. Mae'n bosib mai dim ond pan fo'r tywydd yn anffafriol y bydd yr ymyrraeth achlysurol hon yn digwydd. Efallai y bydd y cartrefi hyn yn dioddef lefelau uchel o ymyrraeth am hyd at 5% o'r flwyddyn, felly byddant yn cael derbyniad o leiaf 95% o'r adeg. Mae'r trothwy ar gyfer derbyniad teledu daearol digidol yn cael ei osod yn uwch fel rheol, ar 99% o'r adeg, gan fod signalau digidol yn fwy tebygol o fethu'n gyfan gwbl yn wyneb ymyrraeth o'r fath tra bo lluniau analog, er bod ymyrraeth yn cael effaith ddifrifol arnynt, yn aml iawn yn dal yn ddigon da i'w gwyllo.
- 1.16 Pe bai'r meini prawf ar gyfer derbyniad analog yn cael eu cymhwyso i dderbyniad digidol ar ôl y newid i'r digidol, mae Ofcom yn amcangyfrif y byddai mwyafrif sylweddol o'r cartrefi hynny'n cael eu hystyried wedyn fel rhai sy'n cael derbyniad. Mae hyn yn golygu y bydd llawer o'r cartrefi hyn yn dal i allu derbyn signalau teledu daearol digidol y rhan fwyaf o'r adeg. Byddant,

fodd bynnag, yn cael mwy o ymyrraeth na chartrefi sy'n cael "gwasanaeth llawn".

- 1.17 Mae hyn yn gadael nifer bach o gartrefi sydd mewn lleoliadau y rhagfynegir y bydd yr effaith ar ei gwaethaf, naill ai oherwydd y byddant yn dioddef ymyrraeth am fwy na 5% o'r adeg, neu oherwydd y byddant yn dioddef ymyrraeth gyson sy'n golygu y gallai fod yn amhosib iddynt dderbyn teledu daearol digidol.

Y rhai hynny a fydd yn symud o ardal lle rhagfynegir derbyniad ar adeg y newid i'r digidol

- 1.18 Mae Ofcom wedi edrych yn fanylach er mwyn canfod pa rannau o'r wlad fydd yn cael eu heffeithio fel hyn. Mae'r gwaith hwn wedi nodi dwy ardal lle mae'r model cynllunio wedi rhagfynegi y gallai miloedd o gartrefi golli eu gwasanaethau. Mae'r gyntaf mewn rhan o ardal Ardrossan yn Swydd Aeron yn yr Alban, ac yn yr achos hwn mae nodweddion darlledu'r trosglwyddydd arfaethedig wedi cael eu newid er mwyn rhoi sylw i'r bwlch yn y derbyniad. Mae'r ail mewn rhan o ardal Skelmersdale yn Swydd Gaerhirfryn. Yn yr achos hwn maent yn ystyried y posibilrwydd o adeiladu trosglwyddydd newydd i wasanaethu'r ardal hon gyda'r amblecsau gwasanaeth cyhoeddus, ac mae gwaith yn cael ei wneud er mwyn canfod safle ac amleddau addas ar gyfer darllediadau.
- 1.19 Mae ardaloedd eraill llai sy'n gallu derbyn teledu analog ar hyn o bryd ond y rhagfynegir y byddant yn cael derbyniad gwael, neu ddim derbyniad o gwbl, ar ôl y newid i'r digidol. Mae gwaith cynllunio rhwydweithiau manwl yn parhau gyda'r bwriad o leihau nifer y gwylwyr sy'n cael eu heffeithio yn y fath fodd.
- 1.20 Bydd Ofcom yn dal i fonitro'r sefyllfa wrth i'r broses o'r newid i'r digidol fynd yn ei blaen er mwyn sicrhau bod cynifer o gartrefi ag sy'n bosib yn gallu derbyn y sianelau gwasanaeth cyhoeddus drwy deledu daearol digidol. Cynghorir y nifer bach o gartrefi lle mae hyn yn amhosib ystyried dewisiadau eraill megis teledu lloeren, cebl, a band llydan ac i ofyn i osodwr erialau cymwysedig lleol edrych ar eu sefyllfa cyn prynu cyfarpar derbyn teledu daearol digidol.

Y rhai hynny a fydd yn dal y tu allan i ardal lle rhagfynegir derbyniad teledu daearol digidol ar adeg y newid i'r digidol ond a fydd yn gallu derbyn gwasanaeth teledu daearol digidol o ansawdd gwael/llai dibynadwy

- 1.21 Mae'r modelau cynllunio'n rhagfynegi y bydd tua 1.4% o gartrefi'r DU (tua 350,000 o gartrefi) yn methu â chael derbyniad llawn gan y tri amblecs gwasanaeth cyhoeddus ar adeg y newid i'r digidol. Bydd y rhan fwyaf o'r cartrefi hyn (tua 275,000 neu 1.1% o gartrefi'r DU yn ôl y rhagfynegiadau) yn dal i allu cael signal y rhan fwyaf o'r adeg (rhwng 95% a 99% o'r adeg) ond byddant yn dioddef yr hyn a elwir yn ymyrraeth amrywiol yn ystod adedgau eraill. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys y 220,000 o gartrefi y cyfeiriwyd atynt uchod a fydd yn symud o ardal lle rhagfynegir derbyniad.
- 1.22 Mae Ofcom yn ceisio dod i ddeall profiad defnyddwyr o'r math hwn o ymyrraeth achlysurol yn well. Mae'r ffigurau rhagarweiniol, ar gyfer derbyniad 99% o'r adeg, yn awgrymu y gallai cartrefi gael anawsterau gwyllo hyd at 10 noson y flwyddyn. Gallai cartrefi y rhagfynegir y byddant yn yr ystod

derbyniad 95 i 99% o'r adeg (1.1% o'r cartrefi, y cyfeiriwyd atynt uchod) gael anawsterau gwyllo 10 i 50 o nosweithiau yn ystod y flwyddyn.

Y rhai hynny na fyddant yn gallu derbyn unrhyw wasanaethau (analog na digidol)

- 1.23 Dim ond 0.3% o gartrefi'r DU (tua 75,000 o gartrefi) sy'n annhebygol o allu derbyn unrhyw signal teledu daearol digidol y gellir ei ddefnyddio. Nid yw'r gwasanaethau daearol analog sy'n bodoli'n barod yn cyrraedd y cartrefi hyn o gwbl, ac mae'r rhan fwyaf eisoes yn cael eu gwasanaethau teledu drwy loeren ddigidol neu drosglwyddydd hunangymorth.

Beth ddylai gwylwyr y mae hyn yn effeithio arnynt ei wneud?

- 1.24 Gall gwylwyr gael cyngor ynglŷn â derbyniad teledu penodol ar adeg y newid i'r digidol gan Digital UK, drwy gysylltu â'r llinell gymorth - 0845 650 50 50 - neu drwy ymweld â'r wefan - www.digitaluk.co.uk . Bydd Ofcom yn gweithio gyda Digital UK ac eraill er mwyn sicrhau bod cyngor da ar gael i'r rhai hynny a allai gael eu heffeithio gan dderbyniad teledu cyfyngedig ar ôl y newid i'r digidol ynglŷn â'r dewisiadau sydd ar gael iddynt.

Ofcom Mawrth 2008